

RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (COFRESTRU) 2024

Ebrill 2024

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addaswydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd **oll** yn berthnasol i gofrestru ac addaswydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfres Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addaswydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addaswydd i ymarfer.

Mae fersiwn (ddiwygiedig) ddiweddaraf y Ddeddf i'w gweld yn:
<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents>.

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - <http://www.legislation.gov.uk/wsi>

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y'u diwygiwyd
- Rheoliadau Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2023

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:
<https://gofalcymdeithasol.cymru/delio-a-phryderon/sut-mae-gwrandawiadaun-gweithio>
<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/pam-rydym-yn-cofrestru>

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4), a 91(2) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac yn unol ag adran 75(3) y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

CYFLWYNIAD

- | | | |
|----|----------------------------|---|
| 1. | Cyfeirio, cychwyn a dirymu | 6 |
| 2. | Dehongli | 6 |

RHAN II

CAIS I GOFRESTRU

- | | | |
|-----|--|----|
| 3. | Ffurf a modd gwneud cais | 13 |
| 4. | Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd | 13 |
| 5. | Y wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd | 14 |
| 6. | Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi ei gymhwyso'n briodol | 14 |
| 7. | Tystiolaeth o addasrwydd i ymarfer | 16 |
| 8. | Tystiolaeth o fwriad i ymarfer | 17 |
| 9. | Ffioedd | 17 |
| 10. | Cydnabod cael cais i gofrestru | 17 |
| 11. | Gofyniad am wybodaeth ychwanegol | 18 |
| 12. | Caniatáu cais i gofrestru | 18 |
| 13. | Gwrthod cais i gofrestru | 20 |
| 14. | Hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru | 20 |

RHAN III

CAIS I ADNEWYDDU

15.	Adnewyddu cofrestriad a myfyrwyr gwaith cymdeithasol	21
16.	Ffurf a modd gwneud cais i adnewyddu	21
17.	Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd	21
18.	Y wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd	21
19.	Y cymwysterau a'r hyfforddiant y mae eu hangen ar gyfer adnewyddu	22
20.	Ffioedd	23
21.	Cydnabod cael cais i adnewyddu cofrestriad	23
22.	Gofyniad am wybodaeth ychwanegol	23
23.	Gwrthod cais i gofrestru	23
24.	Hysbysiad o benderfyniad mewn perthynas â cheisiadau i adnewyddu	24

RHAN IV

HYD A DARFODIAD COFRESTRIAD

25.	Hyd a darfodiad cofrestriad	26
-----	-----------------------------	----

RHAN V

DYLETSWYDD I HYSBYSU'R COFRESTRYDD AM NEWIDIADAU I WYBODAETH GOFRESTRU

26.	Dyletswydd i hysbysu'r cofrestrydd am newidiadau i wybodaeth gofrestru	29
-----	--	----

RHAN VI

DILEU COFNODION O'R GOFRESTR

27.	Dileu cofnodion o'r gofrestr drwy gytundeb	30
-----	--	----

28.	Marwolaeth unigolyn cofrestredig	31
29.	Cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol	31
30.	Dileu o'r gofrestr am resymau eraill	32

RHAN VII

DYCHWELYD I'R GOFRESTR

31.	Cais i ddychwelyd i'r gofrestr	34
32.	Hysbysiad o ganiatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr	35
33.	Hysbysiad o wrthod cais i ddychwelyd i'r gofrestr	35

RHAN VIII

ADFER I'R GOFRESTR

34.	Cais i adfer yn dilyn dileu drwy gytundeb neu ddileu yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol	36
35.	Hysbysiad o ganiatáu cais i adfer	36
36.	Hysbysiad o wrthod cais i adfer	37
37.	Cais i adfer yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer	37

RHAN IX

FFÏOEDD

38.	Ffi gwneud cais a ffi adnewyddu	38
39.	Ffi flynyddol	38
40.	Ffi dychwelyd i ymarfer	38

ATODLENNI

ATODLEN 1

Datblygiad proffesiynol parhaus 38

ATODLEN 2

Rhaglen atgyfnerthu i weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso 39

RHAN I

CYFLWYNIAD

Cyfeirio, cychwyn a dirymu

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2024 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2024.
- (2) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018 (“Rheolau 2018”) a Rheolau 2018b (“Rheolau 2018b”), ond bydd diwygiadau i'r Rheolau hynny a wnaed gan Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2021 (“Rheolau 2021”) yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw weithiwr gofal cymdeithasol a ddaw o fewn cwmpas Rheol 1(2)(a) a (b) Rheolau 2021 hyd nes daw'r cyfnod estynedig y cyfeirir ato yn Rheol 1(3) Rheolau 2021 i ben.
- (3) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2020 (“Rheolau 2020”), ond:
 - (a) bydd Rheolau 2020 yn parhau i fod yn berthnasol i geisiadau am gofrestru, adnewyddu, dychwelyd i'r Gofrestr neu ddileu o'r Gofrestr a dderbynir cyn 1 Hydref 2022, yn amodol ar Reolau 38(2) a 39(1) y Rheolau hyn); a
 - (b) bydd y diwygiadau a wnaed i Reolau 2020 gan Reolau 2021 yn parhau i fod yn berthnasol i unrhyw weithiwr gofal cymdeithasol a ddaw o fewn cwmpas Rheol 1(2)(a) a (b) Rheolau 2021 hyd nes daw'r cyfnod estynedig y cyfeirir ato yn Rheol 1(3) Rheolau 2021 i ben.
- (4) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2022 (“Rheolau 2022”), ond bydd Rheolau 2022 yn parhau i fod yn berthnasol mewn perthynas â cheisiadau i gofrestru, adnewyddu, dychwelyd i'r gofrestr neu ddileu o'r gofrestr sy'n cyrraedd ar ôl 1 Hydref 2022 ond cyn 1 Ebrill 2024, yn amodol ar Reolau 38(2) a 39(1) y Rheolau hyn.

Dehongli

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

Mae “**Deddf**” yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;

Mae “**rhan ychwanegol**” yn golygu rhan o'r gofrestr ar gyfer pob disgrifiad o weithiwr gofal cymdeithasol a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau o dan adran 80(1)(b) y Ddeddf;

Ystyr “**gwasanaeth mabwysiadu**” yw'r ystyr a roddir iddo ym mharagraff 4 Atodlen 1 y Ddeddf;

Ystyr “**gwasanaeth lleoli oedolion**” yw'r ystyr a roddir iddo ym mharagraff 6 Atodlen 1 y Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan y paragraff hwnnw;

Ystyr “**gwasanaeth eirioli**” yw’r ystyr a roddir iddo ym mharagraff 7 Atodlen 1 y Ddeddf ac unrhyw reoliadau a wnaed o dan y paragraff hwnnw;

Mae “**Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**” yn golygu’r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol sy’n gosod safonau cyffredin ar gyfer sefydlu gweithwyr gofal cymdeithasol a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

Mae “**ymgeisydd**” yn golygu unigolyn sy’n gwneud cais i gofrestru, adfer, adnewyddu neu ddychwelyd i’r gofrestr fel gweithiwr cymdeithasol, gweithiwr gofal cymdeithasol neu fyfyrwr gwaith cymdeithasol;

Mae “**rhestr waharddedig**” yn rhestr a ddiffinnir yn adran 117(3) y Ddeddf;

Mae “**Cyngor Gofal**” yn golygu Gwaith Cymdeithasol Lloegr, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;

Mae “**Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol**” yn golygu’r côd ymarfer sy’n gosod y safonau ymddygiad ac ymarfer a ddisgwyllir gan weithwyr gofal cymdeithasol a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan Adran 112(1)(a) y Ddeddf;

Ystyr “**gwasanaeth cartref gofal**” yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 2(1)(a) a pharagraff 1 Atodlen 1 y Ddeddf, yn amodol ar reoliad 2(1) Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y’u diwygiwyd.

Mae “**diwrnodau**” yn golygu diwrnodau calendr;

Mae “**cwrs gradd**” yn golygu cwrs gradd israddedig neu ôl-raddedig a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn unol â Rheolau Cymeradwyo ac Arolygu Cyrsiau Gradd Gwaith Cymdeithasol (Cymru) 2021 Gofal Cymdeithasol Cymru;

Ystyr “**gwasanaeth cymorth cartref**” yw’r ystyr a roddir iddo yn adran 2(1)(h) a pharagraff 8 Atodlen 1 y Ddeddf, yn amodol ar reoliad 3(1) Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y’u diwygiwyd;

Mae “**proses electronig**” yn golygu proses a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn electronig rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac ymgeisydd, unigolyn cofrestredig, cyflogwr, corff rheoleiddiol, prifysgol neu Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cyflwyno cais neu gadarnhau gwybodaeth a gyflwynwyd mewn cysylltiad â chais yn electronig;

Mae “**cyflogwr**” yn cynnwys asiantaethau cyflogaeth, pobl hunangyflogedig, ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol

(sy'n gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol ohonynt;

Mae **“cofnod”** yn golygu'r manylion a gofnodir ar y gofrestr fel y'u pennir yn rheol 3 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2024 neu, os yw'n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach neu ddiweddarach o'r rheolau hynny;

Mae **“cofrestr gyfatebol”** yn golygu cofrestr a ddelir gan Gwaith Cymdeithasol Lloegr, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;

Mae **“Rheolau Addaswydd i Ymarfer”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addaswydd i Ymarfer) 2022 neu, os yw'n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach neu ddiweddarach o'r rheolau hynny;

Ystyr **“gwasanaeth maethu”** yw'r ystyr a roddir ym mharagraff 5 Atodlen 1 y Ddeddf;

Mae **“gorchymyn atal dros dro amhenodol”** yn golygu gorchymyn a wneir gan banel addaswydd i ymarfer o dan adran 154(10) y Ddeddf;

Mae **“Rheolau Gorchymynion Interim”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchymynion Interim) 2022 neu, os yw'n berthnasol, darpariaeth(au) gyfatebol mewn fersiwn gynharach neu ddiweddarach o'r rheolau hynny;

Mae **“gorchymyn atal dros dro interim”** yn golygu gorchymyn sy'n atal cofrestriad unigolyn cofrestredig dros dro o dan y Rheolau Gorchymynion Interim;

Mae **“rheolwr”** yn golygu unigolyn sy'n rheoli man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono yng Nghymru;

Mae **“hysbysiad”** yn golygu gwybodaeth yn ymwneud â chofrestriad unigolyn cofrestredig a roddir gan y cofrestrydd neu'r unigolyn cofrestredig (neu ei gynrychiolydd);

Mae **“rhan o'r gofrestr”** yn golygu'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, neu'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol o bob disgrifiad a bennir yn y rheoliadau o dan adran 80(1)(b) y Ddeddf;

Mae **“cofrestr”** yn golygu'r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae **“unigolyn cofrestredig”** yn golygu unigolyn sydd wedi'i gofrestru mewn rhan o'r gofrestr, ac mae'n cynnwys unigolyn:

- (a) y byddai ei gofrestriad wedi darfod o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno'n berthnasol i'r unigolyn;

- (b) y mae gorchymyn atal dros dro mewn grym mewn perthynas ag ef;
- (c) y mae gorchymyn atal dros dro interim mewn grym mewn perthynas ag ef;
- (ch) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol mewn grym mewn perthynas ag ef;

Mae “**cofrestrydd**” yn golygu’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

Mae “**cofrestriad**” yn golygu’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Mae “**gwasanaeth rheoleiddiedig**” yn golygu:

- (a) gwasanaeth cartref gofal,
- (b) gwasanaeth llety diogel,
- (c) gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd,
- (ch) gwasanaeth mabwysiadu,
- (d) gwasanaeth maethu,
- (dd) gwasanaeth lleoli oedolion,
- (e) gwasanaeth eirioli,
- (f) gwasanaeth cymorth cartref,
- (ff) gwasanaeth preswyl ysgol arbennig.

Mae “**corff rheoleiddiol**” yn golygu corff yn y Deyrnas Unedig neu rywle arall sy’n gyfrifol am reoleiddio, archwilio, arolygu, trwyddedu neu adolygu darpariaeth gofal cymdeithasol, iechyd neu addysg, neu reoleiddio neu drwyddedu proffesiwn gofal cymdeithasol, iechyd neu addysgu;

Mae “**corff perthnasol**” yn golygu’r canlynol:

- (a) Gwaith Cymdeithasol Lloegr neu’r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal;
- (b) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- (c) Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;
- (ch) Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon;
- (d) corff y tu allan i’r Deyrnas Unedig sy’n gyfrifol am reoleiddio gweithgareddau a fyddai, yng Nghymru, yn cael eu rheoleiddio gan Ofal Cymdeithasol Cymru;

Mae “**gwaith cymdeithasol perthnasol**” yn golygu gwaith cymdeithasol sy’n ofynnol mewn cysylltiad ag unrhyw wasanaethau iechyd, gwasanaethau addysg neu wasanaethau cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru;

Ystyr “**gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd**” yw’r ystyr a roddir yn adran 2(1)(c) ac Atodlen 1 y Ddeddf, yn amodol ar reoliad 4 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017, fel y’u diwygiwyd;

Ystyr “**gwasanaeth llety diogel**” yw’r ystyr a roddir ym mharagraff 2 Atodlen 1 y Ddeddf;

Mae “**darparwr gwasanaeth**” yn golygu unigolyn sydd wedi’i gofrestru o dan adran 7 y Ddeddf i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig;

Mae “**Fframwaith Sefydlu Cymru Gofal Cymdeithasol Cymru**” yn golygu’r Fframwaith Sefydlu Gofal Cymdeithasol sy’n gosod safonau cyffredin ar gyfer sefydlu gweithwyr gofal cymdeithasol a gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, a ddisodlwyd gan “Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol” ar 1 Ebrill 2018;

Mae “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae “**gweithiwr gofal cymdeithasol**” yn golygu, at ddibenion y Rheolau hyn, unrhyw unigolyn y mae unrhyw un o’r disgrifiadau canlynol o weithiwr gofal cymdeithasol yn berthnasol iddo:

- (a) unigolyn sy’n rheoli gweithle y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo neu ohono; neu
- (b) unigolyn sydd, yn ystod ei gyflogaeth gyda darparwr gwasanaeth neu o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, yn darparu gofal a chymorth i unrhyw unigolyn yng Nghymru mewn cysylltiad â:
 - (i) gwasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i oedolion, neu
 - (ii) wasanaeth cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant,
 - (iii) gwasanaeth llety diogel;
 - (iv) gwasanaeth cymorth cartref,
 - (v) gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, neu
 - (vi) wasanaeth preswyl ysgol arbennig.

Ystyr “**gweithiwr cymdeithasol**” yw’r ystyr a roddir gan adran 79(1)(a) y Ddeddf, sef unigolyn sy’n gwneud gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru;

Mae **“rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol”** yn golygu'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol;

Mae **“myfyriwr gwaith cymdeithasol”** yn golygu unigolyn:

- (a) sy'n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf;
- (b) sy'n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwyso gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal, neu
- (c) sy'n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwyso gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal lle y gwneir rhan o'r rhaglen yng Nghymru, sydd wedi'i gofrestru neu'n dymuno cofrestru â'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol;

Mae **“Rheoliadau Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol”** yn golygu Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016, fel y'u diwygiwyd;

Ystyr **“gwasanaeth preswyl ysgol arbennig”** yw'r ystyr a roddir iddo yn rheoliad 2 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig) (Cymru) 2023;

Mae **“gorchymyn atal dros dro”** yn golygu gorchymyn a wneir gan banel addasrwydd i ymarfer i atal cofrestriad yr unigolyn cofrestredig dros dro o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer;

Mae **“Rheolau 2018”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018;

Mae **“Rheolau 2018(b)”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018 (b);

Mae **“Rheolau 2020”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2020;

Mae **“Rheolau 2021”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2021;

Mae **“Rheolau 2022”** yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2022;

Ystyr **“gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol”**, at ddibenion adran 84(a)(iii) y Ddeddf, yw bod unigolyn yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol os yw ef neu hi:

- (a) wedi cwblhau'r hyfforddiant a bennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru; neu
- (b) wedi cwblhau'r hyfforddiant neu'r ymarfer asesedig y mae Gofal Cymdeithasol Cymru neu Gyngor Gofal o'r farn ei fod yn gyfwerth;

Ystyr “**gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol**”, at ddibenion adran 84(b)(ii) y Ddeddf, yw bod unigolyn yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â gwaith gofal cymdeithasol o ddisgrifiad penodol os yw ef neu hi:

- (a) wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol a bennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru; neu
- (b) yn dal cymhwyster gofal cymdeithasol arall y mae Gofal Cymdeithasol Cymru o'r farn ei fod yn gyfwerth;

Mae “**ymgymeriadau**” yn golygu ymgymeriadau y mae'r unigolyn cofrestredig wedi cytuno i gydymffurfio â nhw o dan adrannau 126(3)(d), 136(1), 152 (5) a (6), 153(4), 154(5) neu 155(7) y Ddeddf;

Mae “**prifysgol**” yn golygu'r brifysgol neu'r sefydliad addysg uwch sy'n darparu'r cwrs gradd a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol;

- (2) Yn y rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:
 - (a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
 - (b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi'i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu'r rhan sydd â'r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
 - (c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi'i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno;
 - (ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi'i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno.

RHAN II

CAIS I GOFRESTRU

Ffurf a modd gwneud cais

3.
 - (1) Bydd cais i gofrestru yn cael ei wneud i'r cofrestrydd ar ffurf a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
 - (2) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol neu'n weithiwr gofal cymdeithasol (heblaw am fyfyrwr), at ddibenion cymeradwyo'r cais, mae'n rhaid iddo gael ei gydarwyddo (neu ei gadarnhau trwy broses electronig):
 - (a) gan gyflogwr, pan fo'r ymgeisydd yn gyflogedig; neu
 - (b) pan fo'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, yn cael ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu pan nad yw'n gyflogedig, gan:
 - (i) gyn-gyflogwr gofal cymdeithasol a oedd yn cyflogi'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd cyn dyddiad y cais, neu
 - (ii) unigolyn sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd fel un sy'n addas i ddarparu cymeradwyaeth o'r fath.
 - (3) Mae'n rhaid i gais gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd neu ei gadarnhau gan yr ymgeisydd trwy broses electronig.
 - (4) Mae'n rhaid i gais gael ei gyflwyno i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig.

Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd

4.
 - (1) Bydd y cais yn cynnwys rhybudd i'r ymgeisydd:
 - (a) ynglŷn â chanlyniadau (gan gynnwys dileu o'r gofrestr) darparu gwybodaeth anwir neu gamarweiniol; ac
 - (b) y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried bod methiant i hysbysu Gofal Cymdeithasol Cymru am unrhyw newidiadau perthnasol i'r wybodaeth a ddarparwyd, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (gan gynnwys, pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol sy'n dechrau gwaith gofal cymdeithasol o ddisgrifiad gwahanol i hwnnw a bennir yn ei gais, os nad yw'r modd yr oedd yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer y gwaith gofal cymdeithasol o ddisgrifiad newydd; a, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, newid cwrs gradd, neu beidio â chymryd rhan yn y cwrs gradd), yn gamymddwyn difrifol at ddiben adran 117(1)(b) y Ddeddf; ac
 - (c) y dylai pob ymgeisydd (gan gynnwys myfyrwyr gwaith cymdeithasol), gydymffurfio â'r Côd Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a

gyhoeddir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, ac y gallai unrhyw fethiant i gydymffurfio ag unrhyw safon yn y Côt gael ei ystyried mewn achos o dan Reolau Addasrwydd i Ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru.

Y wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd

Enw, cyfeiriad, rhan o'r gofrestr ac ati

5. (1) Mae'n rhaid i ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn ffurflen y cais i gofrestru y cyfeirir ati yn rheol 3(1), gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- (a) fanylion personol yr ymgeisydd, gan gynnwys enw llawn, yr enw y mae'r ymgeisydd yn bwriadu ei ddefnyddio er mwyn ymarfer, unrhyw enw/enwau blaenorol neu enw arall/enwau eraill, dyddiad geni, rhif yswiriant gwladol (neu rif pasbort yn achos ymgeisydd o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig nad oedd wedi cael rhif yswiriant gwladol ar ddyddiad y cais), manylion cyswllt gan gynnwys cyfeiriadau post ac e-bost a rhif ffôn;
 - (b) y rhan neu'r rhannau o'r gofrestr y gwneir cais i gofrestru ynddi/ynddynt;
 - (c) enw a chyfeiriad cyflogwr neu gyflogwyr gwaith cymdeithasol neu ofal cymdeithasol presennol yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - (ch) datganiad bod yr ymgeisydd wedi darllen a deall y Côt Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol ac ymgymeriad i gydymffurfio â'r Côt;
 - (d) (os oes angen) tystiolaeth o hunaniaeth yr ymgeisydd sy'n foddhaol i Ofal Cymdeithasol Cymru;
 - (dd) pan fo ymgeisydd yn hunangyflogedig, yn cael ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu pan nad yw'n gyflogedig, caiff y cofrestrydd fynnu bod yr ymgeisydd yn darparu cymeradwyaeth ar ffurf a bennir gan y cofrestrydd at ddibenion rheolau 3(2)(b), 7(1)(a)(i) a 7(1)(f), a phan fydd hyn yn ofynnol, mae'n rhaid i'r geirdaon cymeriad gael eu llofnodi (neu eu cadarnhau trwy broses electronig) gan unigolyn:
 - (i) nad yw'n perthyn i'r ymgeisydd trwy enedigaeth neu briodas;
 - (ii) nad yw'n cynnal perthynas bersonol â'r ymgeisydd neu'n byw gyda'r ymgeisydd; ac
 - (iii) sydd wedi adnabod yr ymgeisydd am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf.

Tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi ei gymhwyso'n briodol

6. (1) Mae'n rhaid i gais i gofrestru gynnwys tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi ei gymhwyso'n briodol yn unol â gofynion y rheol hon.

- (2) Pan fydd gan ymgeisydd unrhyw gymwysterau eraill, gwybodaeth arall neu brofiad arall sy'n berthnasol i gofrestru a ragnodir mewn rheoliadau a wnaed o dan adran 91(1)(c) y Ddeddf¹, gallai fod yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o'r cyfryw gymwysterau, gwybodaeth neu brofiad.

Gweithwyr cymdeithasol

- (3) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o ran:
- (a) naill ai:
- (i) cwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf neu raglen gymhwyso gymeradwy mewn gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol; neu
 - (ii) fodloni gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol y cyfeirir ato ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru;
- (b) enw darparwr y cwrs;
- (c) enw'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster/cymwysterau;
- (ch) dyddiad dyfarnu'r cymhwyster/cymwysterau;
- (d) yr enw y delir y cymhwyster/cymwysterau ynddo.
- (4) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae Rhan VII, Rheol 31 (5) o'r rheolau hyn yn berthnasol iddo, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o fodloni'r gofynion dychwelyd i ymarfer a nodir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Gweithwyr gofal cymdeithasol

- (5) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o ran:
- (a) naill ai:
- (i) cwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr gofal cymdeithasol; neu

¹ Mae Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016 wedi cael eu gwneud o dan adran 91(1)(c). Mae rheoliad 3(1)(a) a'r Atodlen i'r Rheoliadau yn cyfeirio at gymeradwyaeth gan unrhyw awdurdod gwasanaethau cymdeithasol y mae ei ardal yng Nghymru i weithredu fel gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn unol ag adran 114(1) Deddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd.

- (ii) fodloni gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'n dymuno gweithio ynddo, y cyfeirir ato ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru;
- (b) enw darparwr y cwrs;
- (c) enw'r corff a ddyfarnodd y cymhwyster/cymwysterau;
- (ch) dyddiad dyfarnu'r cymhwyster/cymwysterau;
- (d) dyddiadau'r cwrs;
- (dd) yr enw y delir y cymhwyster/cymwysterau ynddo.

Myfyriwr gwaith cymdeithasol

- (6) Pan fo'r ymgeisydd yn fyfyriwr gwaith cymdeithasol:
 - (a) enw darparwr y cwrs sy'n darparu neu a fydd yn darparu'r cwrs gradd; a
 - (b) chadarnhad bod yr ymgeisydd:
 - (i) yn ymgymryd â chwrs gradd yng Nghymru, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan y 'Fframwaith ar gyfer gradd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru'²; neu
 - (ii) yn ymgymryd â rhaglen gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gyngor Gofal; neu
 - (iii) yn ymgymryd â rhaglen gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal lle mae rhan o'r rhaglen yn cael ei chynnal yng Nghymru; a
 - (c) chadarnhad bod yr ymgeisydd wedi derbyn cynnig gan ddarparwr y cwrs gradd yng Nghymru neu ddarparwr y rhaglen gymhwyso yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig, yn ôl y digwydd.

Tystiolaeth o addasrwydd i ymarfer

- 7. (1) Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth, er boddhad y cofrestrydd, nad oes amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer ar un neu fwy o'r seiliau yn adran 117 (1) y Ddeddf ac, i'r perwyl hwn, bydd yn darparu'r canlynol mewn cysylltiad â'r cais:
 - (a) pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol, yn weithiwr gofal cymdeithasol neu'n fyfyriwr gwaith cymdeithasol, tystiolaeth er boddhad y cofrestrydd:
 - (i) o gymeriad a chymhwysedd yr ymgeisydd, fel y bônt yn berthnasol i addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer y gwaith a ddisgwylir gan weithiwr

² https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Y-Fframwaith-ar-gyfer-y-Radd-mewn-Gwaith-Cymdeithasol-2021.pdf

- cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol o ran y disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r ymgeisydd yn dymuno ymarfer ynddo (gan gynnwys cymeradwyaeth gan gyflogwr neu, pan fo'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, yn cael ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu nad yw'n gyflogedig, gan gyflogwr gofal cymdeithasol neu unigolyn arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd fel un sy'n addas i ddarparu cymeradwyaeth o'r fath);
- (ii) o addasrwydd corfforol a meddyliol i ymarfer gwaith cymdeithasol neu waith gofal cymdeithasol o'r disgrifiad y mae'r ymgeisydd yn dymuno ymarfer ynddo;
 - (b) manylion unrhyw euogfarnau troseddol, rhybuddiadau ffurfiol a roddwyd gan yr Heddlu (heblaw am euogfarnau neu rybuddiadau gwarchoddedig) ac unrhyw achosion troseddol sydd ar ddod y mae'r ymgeisydd wedi cael ei gyhuddo ohonynt yn ffurfiol;
 - (c) manylion unrhyw orchymyn ataliol, gorchymyn peidio ag ymyrryd neu orchymyn tebyg a wnaed ac eithrio yn dilyn euogfarn am drosedd;
 - (ch) manylion proffesiynol yr ymgeisydd (os oes rhai), a ph'un a yw'r ymgeisydd wedi gwneud cais i gofrestru a wrthodwyd, neu wedi cofrestru neu wedi cofrestru'n flaenorol, gan gynnwys y rhesymau dros adael cofrestr, â chorff rheoleiddiol yn y Deyrnas Unedig neu y tu allan i'r Deyrnas Unedig;
 - (d) manylion unrhyw benderfyniad gan gorff perthnasol sy'n ymwneud ag addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer;
 - (dd) datganiad nad yw'r ymgeisydd wedi'i gynnwys ar restr waharddedig;
 - (e) (os bydd y cofrestrydd yn gofyn amdanynt) ffurflen wedi'i llenwi, dogfennau gofynnol a ffi briodol, er mwyn cael tystysgrif cofnod troseddol manwl, a elwir yn ddatgeliad manwl, o dan Adran 115(1) Deddf yr Heddlu 1997;
 - (f) (os bydd y cofrestrydd yn gofyn amdanynt) dogfennau gan gyflogwr neu gyn-gyflogwr yn gysylltiedig ag unrhyw ddiswyddiad neu rybudd ysgrifenedig terfynol cyfredol.

Tystiolaeth o fwriad i ymarfer

- 8. (1) Yn achos gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i'r cais gynnwys cadarnhad bod yr ymgeisydd yn bwriadu ymarfer gwaith cymdeithasol perthnasol yng Nghymru, yn ystod y cyfnod cofrestru y gwneir cais amdano, a gall fod angen i'r cais gynnwys tystiolaeth o hynny.
- (2) Yn achos gweithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i'r cais gynnwys cadarnhad bod yr ymgeisydd yn bwriadu ymarfer gwaith unigolyn sydd wedi'i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn berthnasol iddi yng Nghymru, yn ystod y cyfnod cofrestru y gwneir cais amdano, a gall fod angen i'r cais gynnwys tystiolaeth o hynny.

Ffioedd

9. (1) Mae'n rhaid i'r cais gynnwys y ffi briodol neu'r ffioedd priodol fel y'u nodir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru neu fel y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn eu hysbysu fel arall.³

Cydnabod cael cais i gofrestru

10. (1) Bydd cydnabyddiaeth o gael cais i gofrestru yn cael ei darparu i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn tridiau o gael y cais.

Gofyniad i ddarparu gwybodaeth ychwanegol

11. (1) Caiff y cofrestrydd, at ddibenion penderfynu ar y cais:
- (a) pan na fydd yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ynglŷn ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheolau 5 i 9, ofyn am wybodaeth gan yr ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei darparu o fewn cyfnod o 42 diwrnod sy'n dechrau ar ôl y diwrnod y cyflwynir y cais i'r ymgeisydd; neu
 - (b) geisio gwybodaeth neu dystiolaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, gan yr ymgeisydd ac unrhyw unigolyn neu ffynhonnell arall.
- (2) Pan fydd y cofrestrydd yn derbyn gwybodaeth o dan baragraff (1)(b) uchod, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd bod y wybodaeth wedi'i derbyn, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd wneud sylwadau ar y wybodaeth honno. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu unrhyw sylwadau o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau ar ôl y diwrnod y rhoddwyd y wybodaeth i'r ymgeisydd.

Caniatáu cais i gofrestru

12. (1) Wrth benderfynu bod gofynion adrannau 83(2)(a) ac 84 y Ddeddf ('Wedi ei gymhwyso'n briodol') wedi'u bodloni, mae'n rhaid i'r cofrestrydd fod yn fodlon ynglŷn â'r materion a amlinellir yn is-baragraffau (2), (3) neu (4) isod.
- (2) Pan fydd y cais ar gyfer cofrestru fel gweithiwr cymdeithasol, mae'n rhaid i'r cofrestrydd fod yn fodlon bod dystiolaeth wedi cael ei darparu sy'n dangos:
- (a) naill ai:

³ Mae gwybodaeth am ffioedd presennol i'w gweld yma - <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/ffioedd>

- (i) bod yr ymgeisydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru neu raglen gymhwyso mewn gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal, ar gyfer unigolion sy'n weithwyr cymdeithasol neu'n dymuno bod yn weithwyr cymdeithasol; neu
 - (ii) ei fod yn bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol; a
- (b) phan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae Rhan VII, rheol 31(5) o'r rheolau hyn yn berthnasol iddo, bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion dychwelyd i ymarfer a nodir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (3) Yn achos cais i gofrestru fel gweithiwr gofal cymdeithasol heblaw am weithiwr cymdeithasol, mae'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cwblhau'n llwyddiannus gwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer unigolion sy'n dymuno bod yn weithwyr gofal cymdeithasol, neu'n bodloni'r gofynion hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae'r cais yn ymwneud ag ef.
- (4) Pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, bod yr ymgeisydd wedi cael ei dderbyn gan ddarparwr cwrs i gymryd rhan mewn:
 - (i) cwrs gradd yng Nghymru, a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan 'Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru 2021'⁴ neu
 - (ii) raglen gymhwyso gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y DU, a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal; neu
 - (iii) raglen gymhwyso gwaith cymdeithasol a gymeradwywyd gan Gyngor Gofal lle y gwneir rhan o'r rhaglen yng Nghymru.

⁴ https://gofalcymdeithasol.cymru/cms_assets/file-uploads/Y-Fframwaith-ar-gyfer-y-Radd-mewn-Gwaith-Cymdeithasol-2021.pdf

Gwrthod cais i gofrestru

13. (1) Mae'n rhaid i'r cofrestrydd wrthod cais i gofrestru:
- (a) os nad yw'n fodlon bod un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheolau 5, 6(1), (3) i (9), 7 (1), 8 neu 9, fel y bo'r angen, wedi'u bodloni; neu
 - (b) yn amodol ar baragraff (2), os nad yw'r ymgeisydd wedi darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o dan Reol 11(1)(a).
- (2) Pan nad yw'r ymgeisydd wedi darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani o dan Reol 11(1)(a) ac mae'r wybodaeth wedi'i chyfyngu i dystiolaeth o gymwysterau eraill, gwybodaeth arall neu brofiad arall o dan Reol 6(2)⁵, caiff y cofrestrydd ganiatáu'r cais i gofrestru, ond ni chaiff wneud cofnod yn y gofrestr o'r cymwysterau eraill, y wybodaeth arall neu'r profiad arall hyd nes bod dystiolaeth berthnasol wedi cael ei darparu.
- (3) Pan fydd y cofrestrydd yn gwrthod dau gais i gofrestru a wnaed gan ymgeisydd, boed yn yr un categori neu mewn categorïau gwahanol, o fewn cyfnod o 12 mis, ni cheir gwneud cais arall i gofrestru hyd nes bod dwy flynedd wedi mynd heibio o ddyddiad y gwrthodiad mwyaf diweddar.

Hysbysiad o benderfyniadau mewn perthynas â chais i gofrestru

14. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i gofrestru, mae'n rhaid i'r cofrestrydd hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o wneud y penderfyniad.
- (2) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i gofrestru, mae'n rhaid i'r cofrestrydd hysbysu'r ymgeisydd:
- a. o'r penderfyniad;
 - b. o'r rhesymau dros y penderfyniad; ac
 - c. o'r hawl i apelio i'r panel apelïadau cofrestru⁶
- yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o wneud y penderfyniad.
- (3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad:
- a. cyflogwr/cyflogwyr hysbys diwethaf yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - b. y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - c. Llywodraeth Cymru;
 - ch. unrhyw gorff rheoleiddiol.

⁵ Mae rheoliad 3(1)(c) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016 yn cyfeirio at gymeradwyaeth gan unrhyw awdurdod gwasanaethau cymdeithasol y mae ei hardal yng Nghymru i weithredu fel gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn unol ag adran 114(1) Deddf Iechyd Meddwl 1983.

⁶ Mae rheoliad 3(1)(c) Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016 yn cyfeirio at gymeradwyaeth gan unrhyw awdurdod gwasanaethau cymdeithasol y mae ei hardal yng Nghymru i weithredu fel gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy yn unol ag adran 114(1) Deddf Iechyd Meddwl 1983.

RHAN III

ADNEWYDDU COFRESTRIAD

Adnewyddu cofrestriad a myfyrwyr gwaith cymdeithasol

15. (1) Ni fydd y rheol hon yn berthnasol i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Ffurf a modd gwneud cais i adnewyddu

16. (1) Bydd cais i adnewyddu cofrestriad yn cael ei wneud i'r cofrestrydd ar ffurf a gymeradwyir gan Ofal Cymdeithasol Cymru ac sydd ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
- (2) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol, at ddibenion cymeradwyo'r cais, mae'n rhaid iddo gael ei gydarwyddo (neu ei gadarnhau trwy broses electronig):
- (a) gan gyflogwr, pan fo'r ymgeisydd yn gyflogedig; neu
 - (b) pan fo'r ymgeisydd yn hunangyflogedig, yn cael ei gyflogi gan aelod o'r teulu neu pan nad yw'n gyflogedig, gan:
 - (i) gyn-gyflogwr gofal cymdeithasol a oedd yn cyflogi'r ymgeisydd yn ystod y cyfnod o bum mlynedd cyn dyddiad y cais, neu
 - (ii) unigolyn sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd fel un sy'n addas i ddarparu cymeradwyaeth o'r fath.
- (3) Mae'n rhaid i gais gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd neu ei gadarnhau gan yr ymgeisydd trwy broses electronig.
- (4) Dylai cais sy'n cynnwys yr holl wybodaeth y gofynnir amdani yn rheolau 5, 6(1), 7 ac 8 gael ei gyflwyno i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig fel ei fod yn cyrraedd Gofal Cymdeithasol Cymru o leiaf 21 diwrnod cyn y dyddiad y bydd y cofrestriad yn dod i ben.
- (5) Bydd cais sy'n cyrraedd Gofal Cymdeithasol Cymru cyn y dyddiad y bydd y cofrestriad yn dod i ben, ond o fewn llai nag 21 diwrnod cyn y dyddiad hwnnw, yn cael ei ystyried, ond ni fydd yr ymgeisydd yn gallu parhau i ymarfer ar ôl y dyddiad pan ddaw'r cofrestriad i ben hyd nes caniateir adnewyddu cofrestriad.

Y wybodaeth sydd i'w darparu i'r ymgeisydd

17. (1) Bydd y cais i adnewyddu cofrestriad yn cynnwys y wybodaeth a amlinellir yn Rheol 4 uchod.

Y wybodaeth sydd i'w darparu yn y cais gan yr ymgeisydd

18. (1) Yn y cais i adnewyddu cofrestrriad, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth y mae ffurflen y cais i adnewyddu cofrestrriad y cyfeirir ati yn Rheol 16(1) yn gofyn amdani, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r wybodaeth y cyfeirir ati yn rheol 5(1)(a) ac (c) a rheolau 7 ac 8 ers cofrestru neu ers adnewyddu cofrestrriad.

Tystiolaeth o'r cymwysterau a'r hyfforddiant y mae eu hangen ar gyfer adnewyddu

19. (1) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol y mae'n ofynnol iddo gwblhau gofynion hyfforddiant i adnewyddu, fel y pennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru, mae'n rhaid darparu tystiolaeth o gwblhau. Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr gofal cymdeithasol nad oedd, ar yr adeg cofrestru, wedi cwblhau'r gofyniad hyfforddiant ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol dan sylw, mae'n rhaid i'r cais cyntaf i adnewyddu cofrestrriad gynnwys tystiolaeth wedi'i llofnodi (neu wedi'i chadarnhau gan broses electronig) gan gyflogwr yr ymgeisydd, neu os nad yw'r ymgeisydd yn gyflogedig, gan gyn-gyflogwr neu unigolyn arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd, bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofyniad hyfforddiant perthnasol.
- (2) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae Atodlen 2 yn berthnasol iddo, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi cwblhau rhaglen gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso neu wedi dilyn y cyfryw hyfforddiant ychwanegol ag y gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ei fynnu neu ystyried ei fod yn gyfwerth.
- (3) Pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol neu'n weithiwr gofal cymdeithasol, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gwblhau'r gofynion dysgu a datblygiad proffesiynol parhaus a amlinellir yn Atodlen 1.

Ffioedd

20. (1) Mae'n rhaid i'r cais gynnwys y ffi briodol neu'r ffioedd priodol fel y nodir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru neu fel y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hysbysu fel arall, gan gynnwys talu unrhyw ffi flynyddol/ffioedd blynyddol sy'n ddyledus yn ymwneud â'r cyfnod cofrestru yn union cyn y cais i adnewyddu.

Cydnabod cael cais i adnewyddu cofrestrriad

21. (1) Bydd cydnabyddiaeth o gael cais i adnewyddu cofrestrriad yn cael ei darparu i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn tridiau o gael y cais.

Gofyniad am wybodaeth ychwanegol

22. (1) Caiff y cofrestrydd, er mwyn penderfynu ar y cais:
- (a) pan na fydd yr ymgeisydd wedi darparu gwybodaeth ynglŷn ag un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheol 18, ofyn am wybodaeth gan yr ymgeisydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, y mae'n rhaid i'r ymgeisydd ei darparu o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr anfonir y cais at yr ymgeisydd; neu
 - (b) geisio gwybodaeth neu dystiolaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, gan yr ymgeisydd ac unrhyw unigolyn neu ffynhonnell arall.
- (2) Pan fydd y cofrestrydd yn derbyn gwybodaeth o dan baragraff (1)(b) uchod, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd bod y wybodaeth wedi'i derbyn, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd wneud sylwadau ar y wybodaeth honno o fewn cyfnod o 28 niwrnod sy'n dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr anfonwyd y wybodaeth at yr ymgeisydd.

Gwrthod cais i adnewyddu cofrestrriad

23. (1) Mae'n rhaid i'r cofrestrydd wrthod cais i adnewyddu cofrestrriad:
- (a) os nad yw'r cofrestrydd yn fodlon bod un neu fwy o'r materion a amlinellir yn Rheolau 18 neu 20 wedi'u bodloni;
 - (b) os nad yw'r ymgeisydd wedi darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani yn Rheol 22(1)(a), neu

- (c) yn amodol ar baragraff (2), os nad yw'r cofrestrydd yn fodlon nad oes amhariad ar addasrwydd yr ymgeisydd i ymarfer ar un neu fwy o'r seiliau yn adran 117 (1) y Ddeddf.
- (2) Pan na fydd y cofrestrydd yn fodlon bod un neu fwy o ofynion Rheol 19 sy'n berthnasol i'r cais wedi'u bodloni, caiff y cofrestrydd:
 - (a) wrthod y cais i gofrestru; neu
 - (b) os yw'n fodlon bod rhesymau eithriadol dros wneud hynny, ganiatáu'r cais i adnewyddu cofrestriad.
- (3) Pan na fydd y cofrestrydd yn gallu gwneud penderfyniad o dan baragraff 1(c) uchod, caiff y cofrestrydd wneud atgyfeiriad o dan adran 118 y Ddeddf er mwyn rhoi ystyriaeth ragarweiniol i amhariad ar addasrwydd i ymarfer.
- (4) Pan fydd y cofrestrydd yn gwneud atgyfeiriad o dan adran 118 y Ddeddf, ni fydd y cofrestrydd yn gwneud penderfyniad ynglŷn â ph'un ai caniatáu neu wrthod y cais i adnewyddu hyd nes bod unrhyw achos o dan Ran 6 y Ddeddf wedi cael ei gwblhau'n derfynol.⁷

Hysbysiad o benderfyniadau mewn perthynas ag adnewyddu

- 24. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i adnewyddu cofrestriad, mae'n rhaid i'r cofrestrydd hysbysu'r ymgeisydd o'r penderfyniad yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o wneud y penderfyniad.
- (2) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i adnewyddu cofrestriad, mae'n rhaid i'r cofrestrydd hysbysu'r ymgeisydd:
 - (a) o'r penderfyniad;
 - (b) o'r rhesymau dros y penderfyniad; ac
 - (c) o'r hawl i apelio i'r panel apeliadau cofrestru⁸

yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o wneud y penderfyniad.
- (3) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad:
 - (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys diwethaf yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - (b) Llywodraeth Cymru;
 - (c) unrhyw gorff rheoleiddiol.

⁷ Yn ôl adran 87 (2) a (3) y Ddeddf, os yw unigolyn yn destun achos o dan Ran 6 y Ddeddf, gan gynnwys ystyriaeth neu ymchwiliad rhagarweiniol o dan Bennod 2 y rhan honno, ni fydd cofrestriad yr unigolyn hwnnw'n darford tra'i fod yn destun yr achos hwnnw.

⁸ O dan Adran 101(2) y Ddeddf, ni all unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad cofrestrydd os yr unig reswm dros wneud y penderfyniad hwnnw oedd i'r unigolyn fethu (a) talu unrhyw ffi, (b) gwneud y cais ar y ffurf ac yn y modd sy'n ofynnol gan GCC, neu (c) darparu dogfennau neu wybodaeth i ategu'r cais.

RHAN IV

HYD A DARFODIAD COFRESTRIAD

25. (1) Ac eithrio pan fo Rheolau 2021 yn berthnasol⁹, yn amodol ar ddileu o dan Ran VI neu o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer, bydd cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y gofrestr yn aros mewn grym:
- (a) am gyfnod o 12 mis o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad;
 - (b) am gyfnod arall o 12 mis o ben-blwydd cyntaf dyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad ar ôl talu'r ffi flynyddol berthnasol;
 - (c) am gyfnod arall o 12 mis o ail ben-blwydd dyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad ar ôl talu'r ffi flynyddol berthnasol.
- (2) Ac eithrio pan fo Rheolau 2021 yn berthnasol a phan fo'r unigolyn cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, yn amodol ar ddileu o dan Ran VI neu o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer ac yn amodol ar dalu'r ffioedd blynyddol y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)(b) ac 1(c) uchod, bydd cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y gofrestr yn aros mewn grym am gyfnod o dair blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad.
- (3) Pan fo Rheolau 2021 yn berthnasol a heblaw pan fo'r unigolyn cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, yn amodol ar ddileu o dan Ran VI neu o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer, bydd cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y gofrestr yn aros mewn grym:
- (a) am gyfnod o 12 mis o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad;
 - (b) am gyfnod pellach o 12 mis o ben-blwydd cyntaf dyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad ar ôl talu'r ffi flynyddol berthnasol;
 - (c) am gyfnod pellach o 12 mis o ail ben-blwydd dyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad ar ôl talu'r ffi flynyddol berthnasol;
 - (ch) am gyfnod pellach o 12 mis o drydydd pen-blwydd dyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad ar ôl talu'r ffi flynyddol berthnasol.
- (4) Pan fo Rheolau 2021 yn berthnasol a heblaw pan fo'r unigolyn cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, yn amodol ar ddileu o dan Ran VI neu o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer ac yn amodol ar dalu'r ffioedd blynyddol, bydd cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y gofrestr yn aros mewn grym am gyfnod o bedair blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad.

⁹ Mae Rheolau 2021 yn berthnasol i weithiwr gofal cymdeithasol yr oedd, ar 31 Mawrth 2021, ei gofrestrriad neu adnewyddiad diweddaraf ei gofrestrriad wedi dechrau ar ddyddiad rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2021.

- (5) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, yn amodol ar ddileu o dan Ran VI neu o dan y Rheolau Addaswydd i Ymarfer ac yn amodol ar dalu'r ffioedd blynyddol perthnasol, bydd cofnod yr unigolyn cofrestredig yn y gofrestr yn aros mewn grym:
- (a) tra bod yr unigolyn cofrestredig yn parhau i ddilyn y cwrs neu'r rhaglen gymhwysu;
 - (b) am hyd y cwrs neu'r rhaglen gymhwysu;
 - (c) am wyth mlynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru gan Ofal Cymdeithasol Cymru,
- pa un bynnag sydd gynharaf.
- (6) Yn amodol ar adran 87(3)¹⁰ a (4)¹¹ y Ddeddf, bydd cofrestriad yn darfod:
- (a) ar ddiwedd y cyfnod o 12 mis o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad os na thalwyd y ffi flynyddol berthnasol erbyn y dyddiad hwnnw;
 - (b) ar ddiwedd y cyfnod o 24 mis o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad os na thalwyd y ffi flynyddol berthnasol erbyn y dyddiad hwnnw;
 - (c) ac eithrio pan fo Rheolau 2021 yn berthnasol a heblaw pan fo paragraff (5) (a) neu (b) yn berthnasol, yn achos unigolyn heblaw am fyfyrwr gwaith cymdeithasol, ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad;
 - (ch) pan fo Rheolau 2021 yn berthnasol a heblaw pan fo paragraff (5) (a), (b) neu (c) yn berthnasol, yn achos unigolyn heblaw myfyrwr gwaith cymdeithasol, ar ddiwedd y cyfnod o bedair blynedd o ddyddiad caniatáu'r cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad;

¹⁰ Yn ôl adran 87(3) y Ddeddf, ni fydd cofrestriad yn darfod mewn perthynas ag unigolyn –

- (a) sy'n destun unrhyw achos o dan Ran 6, gan gynnwys ystyriaeth neu ymchwiliad rhagarweiniol o dan Bennod 2 y Rhan honno, sy'n ymwneud ag addaswydd yr unigolyn i ymarfer y gwaith y mae ei gofrestriad yn ymwneud ag ef ("y gwaith perthnasol");
- (b) y gwnaed penderfyniad yn ei gylch yn ymwneud â gwaith perthnasol y gellid apelio yn ei erbyn o dan adran 158 (apeliadau yn erbyn penderfyniadau panel addaswydd i ymarfer);
- (c) sy'n destun gorchymyn cofrestriad amodol yn ymwneud â'r gwaith perthnasol sydd mewn grym o dan adran 138(7), 152(8)(c), 153(6) neu (7), 154(8)(c) neu 155(10)(c);
- (ch) sy'n destun gorchymyn atal dros dro yn ymwneud â'r gwaith perthnasol sydd mewn grym o dan adran 138(8), 152(8)(d), 153(9)(c), 154(6), (7) neu (10) neu 155(9);
- (d) sy'n destun gorchymyn interim yn ymwneud â'r gwaith perthnasol sydd mewn grym o dan adran 144 neu 147.

¹¹ Yn ôl adran 87(4) y Ddeddf, ni fydd adran 87(3)(b) yn berthnasol i unigolyn –

- (a) ar ddiwedd y cyfnod a bennir yn adran 158(3) o fewn pryd y mae'n rhaid cyflwyno apêl (h.y. 28 niwrnod), neu
- (b) os cyflwynir apêl cyn diwedd y cyfnod hwnnw, pan benderfynir ar yr apêl.

- (d) yn achos myfyriwr gwaith cymdeithasol, ar ddiwedd y cyfnod a bennir ym mharagraff (3)(a), (b) neu (c) uchod, pa un bynnag sydd gynharaf, neu, os yw'n ddiweddarach, ar ddiwedd cyfnod estyniad a ganiateir o dan baragraff (4) uchod.
- (7) O leiaf 28 niwrnod cyn diwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraffau (5)(a),(b) neu (c) uchod, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn anfon y canlynol at yr unigolyn cofrestredig yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:
 - (a) nodyn sy'n atgoffa bod y cofrestriad yn dod i ben; ac
 - (b) ar ddiwedd y cyfnod tair blynedd y cyfeirir ato yn (5)(c), ffurflen gais neu fodd o wneud cais yn electronig i adnewyddu cofrestriad.
- (8) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru anfon y nodyn atgoffa bod cofrestriad yn dod i ben y cyfeirir ato ym mharagraff (6) yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig at gyflogwr neu gyflogwr hysbys diwethaf yr unigolyn cofrestredig (os oes un).
- (9) Yn achos cais y mae Rheol 16(5) yn berthnasol iddo, ni fydd yr unigolyn cofrestredig yn gallu parhau i ymarfer yn ei rôl gofrestrdedig ar ôl y dyddiad y daw'r cofrestriad i ben hyd nes caniateir adnewyddu'r cofrestriad.
- (10) Pan fo'r unigolyn cofrestredig yn fyfyriwr gwaith cymdeithasol, caiff y cofrestrydd:
 - (a) fynnu bod yr unigolyn cofrestredig yn darparu cadarnhad a thystiolaeth ei fod yn parhau i ddilyn y cwrs neu'r rhaglen gymhwyso, o fewn 28 niwrnod o gyflwyno'r cais; a/neu
 - (b) holi'r brifysgol.
- (11) Yn amodol ar adran 87(3) a (4) y Ddeddf, yn absenoldeb ymateb boddhaol gan yr unigolyn cofrestredig ar ôl gwneud cais o dan baragraff (10)(a) neu ar ôl cael gwybodaeth gan y brifysgol nad yw'r unigolyn cofrestredig yn parhau i ddilyn y cwrs neu'r rhaglen gymhwyso, caiff y cofrestrydd benderfynu bod cofrestriad yr unigolyn cofrestredig wedi darfod.

RHAN V

DYLETSWYDD I HYSBYSU'R COFRESTRYDD AM NEWIDIADAU I WYBODAETH GOFRESTRU

26. (1) Mae'n rhaid i unigolyn cofrestredig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, o unrhyw newidiadau i'r wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (2) y Rheol hon.
- (2) Mae'r newidiadau y mae angen hysbysu yn eu cylch yn ymwneud â'r wybodaeth a ddarperir wrth wneud cais i gofrestru neu adnewyddu cofrestriad, ac yn cynnwys y wybodaeth sy'n ofynnol yn rheolau 5(1)(a) ac (c), a rheolau 7 ac 8.
- (3) Pan fo'r hysbysiad yn gofyn am ddiwygio enw'r unigolyn yn y gofrestr, caiff y cofrestrydd ofyn bod tystiolaeth yn cael ei chynhyrchu sy'n bodloni Gofal Cymdeithasol Cymru ynghylch cywirdeb y wybodaeth sydd i'w chofnodi ar y gofrestr, a chaiff fynnu bod yr unigolyn cofrestredig sy'n gwneud y cais yn cynhyrchu Affidafid, tystysgrif priodas neu'r gyfryw dystiolaeth ddogfennol arall ag y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ystyried ei bod yn briodol mewn unrhyw achos.
- (4) (a) Caiff y cofrestrydd ofyn am wybodaeth gan unigolyn cofrestredig sy'n ymwneud â'i addasrwydd i ymarfer.
- (b) Mae'n rhaid i gais o dan baragraff (a) gael ei wneud yn ysgrifenedig (a allai gynnwys trwy broses electronig).
- (c) Mae'n rhaid i'r unigolyn cofrestredig y cyfeirir y cais ato, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac o fewn y cyfnod a bennir yn y cais ysgrifenedig, ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani.
- (5) Gallai methiant i gydymffurfio â pharagraff (1), (2), (3) neu (4) y Rheol hon gael ei ystyried yn gamymddwyn difrifol ac arwain at atgyfeirio'r unigolyn cofrestredig i banel addasrwydd i ymarfer.

RHAN VI

DILEU COFNODION O'R GOFRESTR

Dileu cofnodion o'r gofrestr drwy gytundeb¹²

27. (1) Caiff unigolyn cofrestredig nad yw'n dymuno ymarfer fel gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol mwyach mewn perthynas â'r disgrifiad o waith gofal cymdeithasol y mae wedi'i gofrestru ar ei gyfer, wneud cais i ddileu cofnod o'r gofrestr neu ran o'r gofrestr.
- (2) Yn amodol ar baragraffau (3) i (8), pan fydd unigolyn cofrestredig yn gwneud cais i ddileu ei gofnod o'r gofrestr neu ran o'r gofrestr, bydd y cofrestrydd yn dileu'r cofnod hwnnw o'r gofrestr.
- (3) Mae'n rhaid i'r cais gael ei wneud i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, ac mae'n rhaid iddo gynnwys enw'r unigolyn cofrestredig, y rhif cofrestru, y rheswm dros ddileu cofnod o'r gofrestr a manylion cyswllt.
- (4) Caiff y cofrestrydd, er mwyn penderfynu ar y cais, geisio gwybodaeth sy'n ychwanegol i'r hyn a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, oddi wrth yr ymgeisydd ac unrhyw unigolyn neu ffynhonnell arall.
- (5) Pan fydd y cofrestrydd yn cael gwybodaeth o dan baragraff (4) uchod, rhoddir gwybod i'r ymgeisydd fod y wybodaeth wedi dod i law, a bydd y cofrestrydd yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd wneud sylwadau ar y wybodaeth honno o fewn cyfnod o 14 diwrnod sy'n dechrau y diwrnod ar ôl y diwrnod yr anfonir y wybodaeth at yr ymgeisydd.
- (6) Yn amodol ar baragraff (7), ni chaiff y cofrestrydd ddileu cofnod unigolyn cofrestredig o'r gofrestr neu ran o'r gofrestr yn unol â pharagraff (1) pan fydd yr amgylchiadau yn adran 87(3) a (4) y Ddeddf yn berthnasol i'r unigolyn hwnnw.¹³
- (7) Pan fydd paragraff (6) yn berthnasol ar y sail bod yr unigolyn cofrestredig yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer, caiff y cofrestrydd ddileu'r cofnod yn y gofrestr trwy gytundeb os cydymffurfir â'r weithdrefn yn Rheol 9 Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2022.
- (8) Pan na fydd yr un o'r amgylchiadau yn adran 87 (3) a (4) yn berthnasol, caiff y cofrestrydd wrthod dileu cofnod o'r gofrestr drwy gytundeb:

¹² Gwneir y rheol hon yn unol â phwerau GCC o dan adran 92 y Ddeddf ac mae'n darparu ar gyfer dileu trwy gytundeb heb gynnwys Panel Addasrwydd i Ymarfer. Dylid gwahaniaethu rhyngddi â phwerau Panel Addasrwydd i Ymarfer o dan adrannau 135 ac 138 y Ddeddf i wneud gorchymyn am ddileu trwy gytundeb.

¹³ Mae'r amgylchiadau o dan adran 87(3) yn cynnwys lle y bo'r unigolyn cofrestredig yn destun ymchwiliad addasrwydd i ymarfer neu orchymyn cofrestru amodol neu orchymyn atal dros dro.

- (a) pan fydd ymgymeriadau'n berthnasol i'r unigolyn cofrestredig;
 - (b) pan fydd rhybudd wedi cael ei roi i'r unigolyn cofrestredig ac nid yw wedi dod i ben.
- (9) Bydd y cofrestrydd yn rhoi hysbysiad o'r penderfyniad i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn 28 niwrnod o gael y cais, neu o fewn 56 diwrnod os gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol o dan baragraff (4).
- (10) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:
- (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys diwethaf yr unigolyn cyn-gofrestredig (os yw'n berthnasol);
 - (b) Llywodraeth Cymru;
 - (c) unrhyw gorff rheoleiddiol
- yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig nad yw'r unigolyn cyn-gofrestredig wedi'i gofrestru mwyach gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Marwolaeth unigolyn cofrestredig

28. (1) Pan fydd unigolyn sydd wedi'i gofrestru mewn rhan o'r gofrestr wedi marw, mae'n rhaid i'r cofrestrydd ddileu'r cofnod sy'n ymwneud â'r unigolyn hwnnw o fewn 14 diwrnod o gael un neu fwy o'r canlynol:
- (a) copi gwreiddiol neu gopi cywir ardystiedig o dystysgrif marwolaeth; neu
 - (b) hysbysiad ysgrifenedig gan gyflogwr yr unigolyn cofrestredig neu, os yw'n fyfyrwr, gan ddarparwr y cwrs gradd; neu
 - (c) y gyfryw dystiolaeth arall sy'n dderbyniol i'r cofrestrydd.

Cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol

29. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn dileu cofnod neu anodiad i gofnod yn y gofrestr o dan adran 94 y Ddeddf¹⁴, yn ogystal â hysbysu'r unigolyn o dan adran 94(4) y Ddeddf¹⁵, caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu:

¹⁴ Yn ôl adran 94(1) y Ddeddf, os yw'r cofrestrydd yn fodlon bod cofnod mewn rhan o'r gofrestr, neu anodiad i gofnod, wedi cael ei gynnwys ar y gofrestr ar sail gwybodaeth anwir neu gamarweiniol, caiff y cofrestrydd ddileu'r cofnod neu'r anodiad o'r gofrestr.

¹⁵ Yn ôl adran 94(4) y Ddeddf, pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu dileu cofnod yn ymwneud ag unigolyn o'r gofrestr o dan yr adran hon, mae'n rhaid i'r cofrestrydd hysbysu'r unigolyn o'r canlynol –

- (a) y penderfyniad;
- (b) y rhesymau dros y penderfyniad, a'r
- (c) hawl i apelio a roddir gan adran 101 y Ddeddf.

- (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys diwethaf yr unigolyn cyn-gofrestredig (os yw'n berthnasol);
- (b) (pan fo'r unigolyn cyn-gofrestredig yn fyfyrwr) y brifysgol;
- (c) Llywodraeth Cymru;
- (ch) unrhyw gorff rheoleiddiol,

yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig nad yw'r unigolyn cyn-gofrestredig wedi'i gofrestru mwyach gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dileu o'r gofrestr am resymau eraill

30. (1) Pan fydd cofrestriad yr unigolyn cofrestredig wedi darfod yn unol â rheol 25(6)(a) i (e) am y rheswm nad yw'r ffi flynyddol berthnasol wedi'i thalu, bydd y cofrestrydd yn dileu cofnod yr unigolyn cofrestredig o'r gofrestr pan fydd 28 diwrnod wedi mynd heibio ers y dyddiad pan oedd y ffi flynyddol yn ddyledus.
- (2) Pan fydd cofnod ymgeisydd neu unigolyn cofrestredig wedi cael ei roi ar y gofrestr ar gam, bydd y cofrestrydd yn dileu cofnod yr unigolyn cofrestredig o'r gofrestr o fewn deuddydd o gael gwybod am y camgymeriad.
- (3) Pan fydd y panel apeliadau cofrestru wedi cyfarwyddo y dylai enw'r unigolyn cofrestredig gael ei ddileu o'r gofrestr ar ôl ystyried apêl o dan adran 101 (1) (b)¹⁶ neu (c) y Ddeddf¹⁷, bydd y cofrestrydd yn dileu cofnod yr unigolyn cofrestredig o'r gofrestr o fewn deuddydd o benderfyniad y panel, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 87(3) y Ddeddf¹⁸ yn berthnasol i'r unigolyn hwnnw.
- (4) Pan fydd y cofrestrydd wedi dileu cofnod unigolyn cofrestredig o'r gofrestr yn unol â'r rheol hon, bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad:

¹⁶ O dan adran 101(1) (b) y Ddeddf, caiff unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 86 i beidio â chaniatáu adnewyddu cais i gofrestru.

¹⁷ O dan adran 101(1) (c) y Ddeddf, caiff unigolyn apelio yn erbyn penderfyniad y cofrestrydd o dan adran 94 y Ddeddf i ddileu cofnod yn ymwneud ag unigolyn o'r gofrestr.

¹⁸ Yn ôl adran 87(3) y Ddeddf, ni fydd cofrestriad yn darfod mewn perthynas ag unigolyn –

(a) sy'n destun unrhyw achos o dan Ran 6, gan gynnwys ystyriaeth neu ymchwiliad rhagarweiniol o dan Bennod 2 y Rhan honno, sy'n ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer y gwaith y mae ei gofrestriad yn ymwneud ag ef ("y gwaith perthnasol");

(b) y gwnaed penderfyniad yn ei gylch yn ymwneud â gwaith perthnasol y gellid apelio yn ei erbyn o dan adran 158 (apeliadau yn erbyn penderfyniadau panel addasrwydd i ymarfer);

(c) sy'n destun gorchymyn cofrestriad amodol yn ymwneud â'r gwaith perthnasol sydd mewn grym o dan adran 138(7), 152(8)(c), 153(6) neu (7), 154(8)(c) neu 155(10)(c);

(ch) sy'n destun gorchymyn atal dros dro yn ymwneud â'r gwaith perthnasol sydd mewn grym o dan adran 138(8), 152(8)(d), 153(9)(c), 154(6), (7) neu (10) neu 155(9);

(d) sy'n destun gorchymyn interim yn ymwneud â'r gwaith perthnasol sydd mewn grym o dan adran 144 neu 147.

- (a) yr ymgeisydd neu'r unigolyn cyn-gofrestredig;
- (b) cyflogwr/cyflogwyr hysbys diwethaf yr ymgeisydd neu'r unigolyn cyn-gofrestredig (os yw'n berthnasol);
- (c) (pan fo'r ymgeisydd neu'r unigolyn cyn-gofrestredig yn fyfyrwr) y brifysgol;
- (ch) Llywodraeth Cymru;
- (d) unrhyw gorff rheoleiddiol.

RHAN VII

DYCHWELYD I'R GOFRESTR

Cais i ddychwelyd i'r gofrestr

31. (1) Ac eithrio pan fydd angen cais i adfer a phan wneir cais o dan baragraff (6) y rheol hon, bydd y paragraffau canlynol yn berthnasol i gais i ddychwelyd i'r gofrestr.
- (2) Bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn trin cais i ddychwelyd i'r gofrestr fel cais cychwynnol i gofrestru, a bydd y darpariaethau a amlinellir yn rheolau 3 – 11, 13 a 14 yn berthnasol, yn amodol ar baragraffau (3), (4) a (5) isod.
- (3) Mae'n rhaid cyflwyno'r ffi ymgeisio gyda chais i ddychwelyd i'r gofrestr, ynghyd ag unrhyw ffi neu ffioedd sy'n ychwanegol neu'n ddyledus (fel yr amlinellir yn Atodlen 1) yn unol â'r hyn a bennir gan y cofrestrydd.

Cais yn dilyn methiant i adnewyddu

- (4) Pan fydd cais yn cael ei wneud gan unigolyn a ddilëwyd o'r gofrestr am beidio ag adnewyddu ei gofrestrriad, mae'n rhaid i dystiolaeth foddhaol o gwblhau'r gofynion datblygiad proffesiynol parhaus (fel yr amlinellir yn Atodlen 1) gyd-fynd â'r cais. Bydd gofynion Atodlen 1 yn berthnasol fel pe bai'r geiriau 'o fewn y cyfnod cofrestru' yn cael eu disodli gan y geiriau 'o fewn y cyfnod o dair blynedd cyn dyddiad y cais i ddychwelyd i'r gofrestr'.

Gweithiwr cymdeithasol sy'n dychwelyd i ymarfer

- (5) Os yw'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol nad yw wedi ei gofrestru yn rhan gweithiwr cymdeithasol y gofrestr neu gofrestr gyfatebol am gyfnod o dair blynedd neu ragor ac sy'n gwneud cais i gofrestru yn y rhan o'r gofrestr gweithiwr cymdeithasol neu i ddychwelyd i'r rhan gweithiwr cymdeithasol o'r gofrestr, rhaid iddynt ddarparu tystiolaeth bod yr ymgeisydd wedi bodloni'r gofynion dychwelyd i ymarfer a nodwyd ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.

Cais yn dilyn methu talu'r ffi flynyddol

- (6) Gall unigolyn a ddilewyd o'r gofrestr wneud cais o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad dileu. Rhaid i'r canlynol gyd-fynd â'r cais:
- a. talu'r ffi flynyddol berthnasol, a

- b. naill ai:
- (i) datganiad na fu unrhyw newidiadau yn y wybodaeth y cyfeirir ati yn Rheol 26(2), neu
 - (ii) fanylion unrhyw newidiadau o'r fath.

Hysbysiad o ganiatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr

32. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad o'r penderfyniad i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o'r penderfyniad.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (ch) unrhyw gorff rheoleiddiol.

Hysbysiad o wrthod cais i ddychwelyd i'r gofrestr

33. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i ddychwelyd i'r gofrestr, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad o'r canlynol i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod:
- (a) y penderfyniad;
 - (b) y rhesymau dros y penderfyniad; a'r
 - (c) hawl i apelio i'r panel apeliadau cofrestru.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (ch) unrhyw gorff rheoleiddiol.
- (3) Pan fydd y cofrestrydd yn gwrthod dau gais i ddychwelyd i'r gofrestr a wnaed gan ymgeisydd (boed yn yr un categori neu mewn categorïau gwahanol) o fewn cyfnod o 12 mis, ni cheir gwneud cais arall i ddychwelyd i'r gofrestr hyd nes bod dwy flynedd wedi mynd heibio o ddyddiad y gwrthodiad mwyaf diweddar.

RHAN VIII

ADFER I'R GOFRESTR

Adfer yn dilyn dileu drwy gytundeb neu ddileu yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol

34. (1) Mae'r rheol hon yn berthnasol pan fydd cais i adfer yn cael ei wneud o dan adran 96(2) y Ddeddf yn dilyn (dileu drwy gytundeb) neu (ddileu yn seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol).
- (2) Mae'n rhaid i unigolyn sy'n gwneud cais i gael ei adfer i'r gofrestr o dan baragraff (1) ddarparu'r canlynol i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:
- (a) cais i gofrestru sy'n bodloni gofynion rheolau 5 - 9;
 - (b) pan fo'r ymgeisydd yn weithiwr cymdeithasol y mae Rhan VII, rheol 31(5) yn berthnasol iddo, y dystiolaeth o ddychwelyd i ymarfer sy'n ofynnol gan Ofal Cymdeithasol Cymru, fel y nodir ar ei gwefan
 - (c) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y dibynnir arni i ategu'r cais.
- (3) Caiff y cofrestrydd ganiatáu'r cais i adfer o dan y rheol hon dim ond os yw'n fodlon bod yr ymgeisydd yn bodloni'r gofynion cofrestru a bennir yn adran 83(2) y Ddeddf.¹⁹

Hysbysiad o ganiatáu cais i adfer i'r gofrestr

35. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu caniatáu cais i adfer i'r gofrestr yn dilyn cais o dan reol 34, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad o'r penderfyniad i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (ch) unrhyw gorff rheoleiddiol.

Hysbysiad o wrthod cais i adfer i'r gofrestr

¹⁹ Yn ôl adran 83(2) y Ddeddf, y gofynion cofrestru yw –

(a) bod yr unigolyn wedi ei gymhwyso'n briodol (adran 84)

(b) nad oes amhariad ar addasrwydd yr unigolyn i ymarfer ar un neu fwy o'r seiliau yn adran 117(1), a

(c) bod yr unigolyn yn bwriadu ymarfer gwaith unigolion sydd wedi'u cofrestru yn y rhan o'r gofrestr y mae'r cais yn ymwneud â hi.

36. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn penderfynu gwrthod cais i adfer i'r gofrestr yn dilyn cais o dan reol 34, mae'n rhaid i Ofal Cymdeithasol Cymru roi hysbysiad o'r canlynol i'r unigolyn y mae'r cais yn ymwneud ag ef yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod:
- (a) y penderfyniad;
 - (b) y rhesymau dros y penderfyniad; a'r
 - (c) hawl i apelio i'r panel apeliadau cofrestru.
- (2) Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru hysbysu'r canlynol yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig o fewn saith diwrnod o ddyddiad y penderfyniad:
- (a) cyflogwr/cyflogwyr hysbys yr ymgeisydd (os yw'n berthnasol);
 - (b) y brifysgol, pan fo'r ymgeisydd yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol;
 - (c) Llywodraeth Cymru;
 - (ch) unrhyw gorff rheoleiddiol.

Cais i adfer yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer

37. (1) Pan fydd panel addasrwydd i ymarfer wedi gwneud gorchymyn dileu yn flaenorol, ceir gwneud cais i adfer, oni bai bod unrhyw un o'r amgylchiadau yn adran 97(3)(a)²⁰ neu (b)²¹ neu 98(4)²² y Ddeddf yn berthnasol.
- (2) Mae'n rhaid i ymgeisydd ar gyfer adfer o dan y rheol hon ddarparu'r canlynol i'r cofrestrydd yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig:
- (a) cais i gofrestru sy'n bodloni gofynion rheolau 3 i 9 a 19 (os yw'n berthnasol);
 - (b) y ffi briodol (fel y'i pennir yn Atodlen 1); ac
 - (c) unrhyw dystiolaeth ddogfennol y dibynnir arni i ategu'r cais.
- (3) Bydd cais o dan y rheol hon yn cael ei atgyfeirio i banel apeliadau cofrestru a bydd y cais yn cael ei ystyried yn unol â Rhan IV Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Panel Apeliadau Cofrestru) 2022.

²⁰ Yn ôl adran 97(3)(a), ni chaiff yr unigolyn wneud cais i adfer cyn pen pum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn.

²¹ Yn ôl adran 97(3)(a), ni chaiff yr unigolyn wneud cais i adfer cyn pen pum mlynedd yn dechrau ar y dyddiad y gwnaed y gorchymyn.

²² Yn ôl adran 98(4), caiff panel apeliadau cofrestru roi cyfarwyddyd na chaiff unigolyn wneud cais i adfer i'r gofrestr pan fydd yr unigolyn wedi gwneud dau gais neu fwy yn flaenorol ac, ar yr ail gais neu'r cais dilynol, bod y panel apeliadau cofrestru wedi cyfarwyddo na chaiff yr unigolyn wneud unrhyw geisiadau pellach i adfer.

RHAN IX

FFÏOEDD

Ffi gwneud cais a ffi adnewyddu

38. (1) Y ffi sydd i'w chodi am brosesu cais i gofrestru o dan Rhan II ("y ffi gwneud cais") fydd y ffi gwneud cais a bennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru neu y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hysbysu fel arall ar gyfer y flwyddyn y daw'r cais i law Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ni ellir ei had-dalu.
- (2) Y ffi sydd i'w chodi am brosesu cais i adnewyddu cofrestriad o dan Ran III ("y ffi adnewyddu") fydd y ffi adnewyddu a bennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru neu y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hysbysu fel arall ar gyfer y flwyddyn y daw'r cyfnod cofrestru i ben, ac ni ellir ei had-dalu.

Ffi flynyddol

39. (1) Y ffi sydd i'w chodi mewn perthynas â chofrestru mewn unrhyw flwyddyn yn dilyn y flwyddyn pryd y caniatawyd cofrestru neu adnewyddu fydd y ffi flynyddol a bennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru neu y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hysbysu fel arall ar gyfer y flwyddyn y mae'r ffi flynyddol yn ddyledus, ac ni ellir ei had-dalu.
- (2) Bydd y cofrestrydd yn anfon hysbysiad at yr unigolyn cofrestredig yn ysgrifenedig neu drwy broses electronig, o leiaf 28 niwrnod cyn y dyddiad y mae'r ffi flynyddol yn ddyledus, sy'n datgan bod y ffi flynyddol yn ddyledus a'r dyddiad pryd y mae'n ddyledus.
- (3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheolau at y dyddiad y mae'r ffi flynyddol yn ddyledus yn gyfeiriad at:
- (a) ben-blwydd y dyddiad pan gafodd y cofnod ei gynnwys gyntaf yn y gofrestr ac ar y dyddiad hwnnw ym mhob blwyddyn ddilynol, ac os cafodd y cofnod ei gynnwys gyntaf ar 29 Chwefror, caiff ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar 1 Mawrth;
- (b) pan fydd cofnod yn y gofrestr wedi cael ei ddileu ac yna'n cael ei adfer wedi hynny, pen-blwydd y dyddiad pan gafodd y cofnod ei adfer ac ar y dyddiad hwnnw ym mhob blwyddyn ddilynol, ac os cafodd y cofnod ei adfer ar 29 Chwefror, caiff ei drin fel pe bai wedi'i wneud ar 1 Mawrth.

Ffi dychwelyd i ymarfer

40. (1) Pan na fydd gweithiwr cymdeithasol wedi cael ei gofrestru fel gweithiwr cymdeithasol yn y rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol neu

gofrestr gyfatebol am gyfnod o dair blynedd neu fwy, mae'n rhaid i'r unigolyn ddangos ei addasrwydd i ddychwelyd i'r gofrestr.

- (2) Y ffi sydd i'w chodi pan fydd paragraff (1) yn berthnasol ("y ffi dychwelyd i ymarfer") fydd y ffi a bennir ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru neu y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei hysbysu fel arall ar gyfer y flwyddyn y daw'r cais i law Gofal Cymdeithasol Cymru, ac ni ellir ei had-dalu.

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru



Mick Giannasi
Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru
1/2/2024

ATODLEN 1

GOFYNION DYSGU A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS

1. Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, yn ystod ei gyfnod cofrestru, gyflawni astudiaethau, hyfforddiant, cyrsiau, seminarau, darllen, addysgu neu weithgareddau eraill y gellid disgwyl yn rhesymol eu bod yn mireinio datblygiad proffesiynol y gweithiwr cymdeithasol neu'r gweithiwr gofal cymdeithasol, fel y cyfryw, neu gyfrannu at ddatblygu'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd. Mae'r lefel sy'n ofynnol yn cael ei nodi ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru.
2. Bydd pob gweithiwr cymdeithasol a gweithiwr gofal cymdeithasol sydd wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru yn cadw cofnod o'r cyfryw ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a wneir.
3. Gallai Panel Addasrwydd i Ymarfer Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried bod methiant i fodloni'r gofynion DPP uchod yn gamymddwyn difrifol sy'n arwain at ganfod amhariad ar addasrwydd i ymarfer.
4. Caiff gweithwyr cymdeithasol sy'n ymgymryd â Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso (fel y cyfeirir ati yn Atodlen 2) ddefnyddio hyn i ddangos tystiolaeth o gydymffurfio â'r gofynion DPP.

ATODLEN 2

RHAGLEN GADARNHAU AR GYFER GWEITHWYR CYMDEITHASOL NEWYDD GYMHWYSO

Rhaid i bob gweithiwr cymdeithasol a gofrestrwyd gyntaf gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a gymhwysodd ar neu ar ôl 1 Ebrill 2016, o fewn ei gyfnod cofrestru cyntaf o dair blynedd, y mae'n gweithio fel gweithiwr cymdeithasol yn ystod y cyfnod hwnnw, naill ai:

- (1) gwblhau Rhaglen Gadarnhau ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwysu a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru,

neu
- (2) ymgymryd â'r cyfryw hyfforddiant ag y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ei fynnu neu'n ystyried ei fod yn gyfatebol.